***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2018/1173 (Cy. 237) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 58 (Cy. 22)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Ionawr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *24 Ionawr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *14 Chwefror 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 126A(2)(a) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 126A(6) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Trysorlys cyn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Chwefror 2022.

### Diwygiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen (Cyrff Dynodedig)—

(a) hepgorer "North East Property LP (rhif y cwmni LP017936)";

(b) yn y lle priodol mewnosoder "North East Property (GP) Limited (rhif y cwmni 04069901)".

(**1**) 2006 p. 32; mewnosodwyd adran 126A gan adran 44(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25).
(**2**) O.S. 2018/1173 (Cy. 237), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1483 (Cy. 267), O.S. 2021/1345 (Cy. 347).

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

20 Ionawr 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ("Gorchymyn 2018") drwy ddileu'r corff North East Property LP o'r rhestr o gyrff dynodedig a gynhwysir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw, a oedd wedi ei fewnosod drwy gamgymeriad gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021 ("Gorchymyn 2021") (O.S. 2021/1345 (Cy. 347)).

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn mewnosod y corff North East Property (GP) Limited yn yr Atodlen i Orchymyn 2018. Effaith y diwygiad hwn yw y caniateir i'r wybodaeth sy'n ymwneud ag adnoddau y disgwylir eu defnyddio gan y corff hwn gael ei chynnwys mewn cynnig Cyllidebol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.